OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1229 (Cy.87) (C.56)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005

*Wedi'i wneud - - 26 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf")(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005.

### Y diwrnod penodedig

**2.** 30 Ebrill 2005 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf, ddod i rym —

(a) adran 62 (cynllun datblygu lleol), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 63 (gofynion paratoi), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(c) adran 72 (cyd-gynlluniau datblygu lleol); ac

(ch) adran 73 (eithrio rhai sylwadau).

### Darpariaethau canlyniadol

**3.** Ar y diwrnod a bennwyd gan erthygl 2, daw effaith darpariaethau canlynol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990")(**2**) i ben o ran Cymru —

(a) adran 12 (paratoi cynllun datblygu unedol);

(b) adran 21 (newid neu ddisodli cynllun datblygu unedol); ac

(c) adran 23B (cynlluniau datblygu unedol ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru).

(**1**) 2004 p.5.
(**2**) 1990 p.8.

**Darpariaethau trosiannol**

**4.** Mewn perthynas â'r awdurdodau cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a'u hardaloedd —

(a) ni fydd darpariaethau'r Ddeddf a gaiff eu dwyn i rym yn sgil erthygl 2 yn gymwys; ac

(b) bydd darpariaethau Deddf 1990 y daw eu heffaith i ben o dan erthygl 3 yn parhau mewn grym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

26 Ebrill 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 4

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Sir Gwynedd

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir Ynys Môn

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â rhai darpariaethau pellach Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf"), sef adrannau 62 a 63 (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi'u dwyn i rym), 72 a 73, i rym ar 30 Ebrill 2005.

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf (adrannau 60 i 78) yn gymwys i Gymru'n unig ac yn sefydlu system o gynlluniau datblygu lleol ("cynlluniau") yn lle'r cynlluniau datblygu unedol sy'n ofynnol o dan Bennod I Rhan II o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990").

Effaith y Gorchymyn fydd galluogi'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd wedi mynegi dymuniad i ddechrau gwaith ar baratoi eu cynlluniau i wneud hynny. Yr awdurdodau o dan sylw yw —

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

Cyngor Sir Ddinbych

O ran yr awdurdodau cynllunio lleol eraill yng Nghymru (h.y. y rhai a ragnodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn) bydd darpariaethau presennol Deddf 1990 yn parhau mewn grym am y tro.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daeth darpariaethau Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n cael eu rhestru yn y Tabl isod i rym ar y dyddiadau a ddangosir yn rhinwedd Gorchmynion a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

| Adran(nau) | Dyddiad cychwyn | Rhif O.S. |
|---|---|---|
| 60 | 14 Gorffennaf 2004 | 2004/1814 (Cy.199) (C.74) |
| 62(4) a (5)(g) | 1 Awst 2004 | 2004/1813 (Cy.198) (C.73) |
| 63(3)(a) a (7) | 1 Awst 2004 | 2004/1813 (Cy.198) (C.73) |
| 75 | 1 Awst 2004 | 2004/1813 (Cy.198) (C.73) |
| 76(2) (yn rhannol) a (3) (yn rhannol) | 1 Awst 2004 | 2004/1813 (Cy.198) (C.73) |
| 77 | 1 Awst 2004 | 2004/1813 (Cy.198) (C.73) |
| 78 | 1 Awst 2004 | 2004/1813 (Cy.198) (C.73) |